


# Pos Nadolig y Plant






## AR DRAWS

1. Pwysicaf
4. Beth rydw i'n cael fy ngalw
5. Bydd yn dod
6. Daeth tri ohonynt i Fethlehem

## I LAWR

1. Dyma lle cafodd y bugeiliaid hyd i'r baban Iesu
2. Tri tri
3. Y Fendigaid Fair
5. Bachgen, wedi tyfu i fyny




## Gweddi


Ein Tad, helpa ni i gofio am enedigaeth Iesu Grist ac ymuno i ganu mawl iddo fel yr angylion.

Cofiwn am y bugeiliaid a'r doethion a ddaeth i weld y baban yn y preseb.

Cofiwn fod Iesu wedi dod er mwyn pawb a gad i ni rannu llawenydd a chariad â phawb. Amen.

O rifyn Rhagfyr 2021-Ionawr 2022 y Gwyliedydd, cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd. Golygir gan Robin Jones a Ffion Rowlinson, dylunir gan Elgan Griffiths. Cysylltwch â robinbethel@tiscali.co.uk neu ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk os hoffech wybod mwy am y Gwyliedydd neu danysgrifio i dderbyn copïau drwy'r post am bris rhesymol iawn.

# CRISTION BYCHAN




## Stori'r Geni Luc 2:1-7 (beibl.net)

Dyma Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. (Hwn oedd y cyfrifiad cyntaf, gafodd ei gynnal cyn bod Cwiriniws yn llywodraethwr Syria.) Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad. Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea, a mynd i gofrestru yn Jwdea – yn Bethlehem, hynny ydy tref Dafydd. Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi. Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.




## Symbolau Nadoligaidd



**Y Goeden**
Mae'r goeden fytholwyrdd yn pwyntio tua'r nefoedd, sy'n ein hatgoffa fod Duw yn fythol (am byth).

**Y Dorch**
Mae'r dorch yn gylch sy'n ein hatgoffa nad yw cariad Duw byth yn darfod.





**Y Gannwyll**
Mae'r gannwyll yn goleuo'n ddisglair gan ddangos i ni mai Iesu yw goleuni'r byd.

Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid.